GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Cysylltwch â: Mark Kram
Swyddfa'r Wasg GLIEM
020 7340 6697

www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

02/06 **30 Mawrth 2006**

Datganiad Newyddion

BYDD GWRANDAWIADAU DROS Y FFÔN YN CYFLYMU CYFIAWNDER MEWN LLYSOEDD SIROL

Bydd defnydd ehangach o wrandawiadau dros y ffôn mewn llysoedd sirol yn esgor ar lwybr mwy hwylus at gyfiawnder, ac yn cael gwared â'r angen i deithio i lysoedd a sefyllian o gwmpas yno. Bydd hefyd yn rhyddhau mwy o lysoedd er mwyn gwrando achosion eraill yn gynt.

Bydd llawer mwy o wrandawiadau rhagarweiniol yn cael eu cynnal dros y ffôn yn awr, er y bydd gwrandawiadau llawn yn dal i gael eu cynnal yn y llys. Unwaith y cyflwynir y drefn hon yn y llysoedd, bydd y rhan fwyaf o wrandawiadau dyrannu, gwrandawiadau rhestru, gwrandawiadau rheolaeth achos a cheisiadau (gweler Nodiadau) interim y disgwylir iddynt barhau am lai nag awr, yn cael eu cynnal yn awtomatig drwy gynhadledd dros y ffôn. Gall unrhyw gais arall hefyd gael ei gynnal dros y ffôn, os yw'r llys a phob parti'n cytuno. Gallai pobl ofyn am wrandawiadau dros y ffôn o'r blaen, ond y nod, yn awr, yw sicrhau mai gwrandawiadau o'r fath yw'r norm.

Bydd y gwrandawiadau yn golygu bod pobl nad ydynt yn gallu mynd i'r llys yn bersonol yn gallu bod yn rhan o'r achos, ac yn arbed arian ac amser i ymgyfreithwyr a'u cynrychiolwyr cyfreithiol, gan na fydd rhaid iddynt deithio i unman. Bydd hefyd yn esgor ar ddefnydd mwy effeithiol o'r farnwriaeth ac adeiladau llys.

Dechreuir cyflwyno gwrandawiadau dros y ffôn yn genedlaethol yr wythnos nesaf, yn dilyn cynlluniau peilot llwyddiannus yng Nghanolfan Llysoedd Cyfunedig Newcastle ac yn llysoedd sirol Luton a Bedford.

Dywed Cathy Ashton, y Gweinidog yn Adran Materion Cyfansoddiadol sy'n gyfrifol am bolisi cyfraith sifil:

"Bydd diddymu'r amser a dreulir yn teithio i'r llys a sefyllian o gwmpas yno yn hynod o fanteisiol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd mynychu llys, er enghraifft, am fod ganddynt ddyletswyddau gofal neu anabledd. Bydd hefyd yn rhyddhau llysoedd er mwyn gwrando achosion eraill. Dylai hefyd annog pobl i gytuno ar y camau nesaf i'w cymryd a datrys materion yn gynt. Bydd gwrandawiadau dros y ffôn yn arbed amser ac arian i bawb a fydd yn rhan o'r broses – mae'n dangos sut mae'r llysoedd yn ymateb i anghenion y bobl a wasanaethwn."

Cyflwynir y drefn yn genedlaethol fesul cam, ar sail ranbarthol. Dyma'r amserlen arfaethedig:

- 3 Ebrill - Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr
- 1 Mai - Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr
- 1 Mehefin – Rhanbarth Cymru a Chaer
- 3 Gorffennaf - Rhanbarth De Orllewin Lloegr
- 1 Awst – Rhanbarth Canoldir Lloegr
- 1 Medi – Rhanbarth De Ddwyrain Lloegr
- 2 Hydref – Rhanbarth Llundain

Darperir rhestr o lysoedd sy'n rhan o'r cynllun ar gyfer defnyddwyr llys ar wefan GLlEM, ac fe'i cynhelir ac fe'i diweddarir yn rheolaidd.

Ni chynhelir gwrandawiadau dros y ffôn mewn achosion lle nad oes gan yr un parti gynrychiolaeth gyfreithiol; lle bydd mwy na phedwar parti eisiau gwneud sylwadau yn y gwrandawiad; neu lle gallai'r gwrandawiad esgor ar benderfyniad terfynol ar y cyfan neu ran o'r achos.

NODIADAU

1. Gall partïon wneud cais i wrandawiad beidio â chael ei gynnal dros y ffôn, trwy anfon llythyr, a dim hwyrach na saith niwrnod cyn y gwrandawiad.

2. Gwrandawiad dyrannu: Pan fydd un parti yn ffeilio Holiadur Dyrannu ond bod parti arall ddim, gall y llys orchymyn bod gwrandawiad dyrannu'n cael ei restru bod rhaid i bob neu unrhyw barti fod yn bresennol
3. Gwrandawiad rhestru: pan fydd y llys yn ystyried bod rhaid cael gwrandawiad er mwyn penderfynu pa gyfarwyddiadau i'w rhoi er mwyn cwblhau paratoadau ar gyfer treial
4. Gwrandawiad rheolaeth achos: gwrandawiad neu gynhadledd ynglŷn â chyfarwyddiadau'r llys ac amserlen hyd at dreial
5. Ceisiadau interim: ceisiadau i'r llys ynglŷn â chynnal yr achos na allai (yng nghyd-destun gwrandawiadau ffôn) arwain at benderfyniad terfynol y cyfan neu ran o'r achos